

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2022

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Aled M. Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts.

Aelod Cyfetholedig – Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)

Aelodau Portffolio

Y Cynghorwyr Llinos Medi (Arweinydd y Cyngor), Alun Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Cymdeithasol), Carwyn Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)

WRTH LAW: Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Dysgu, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)
Rheolwr Masnachol Hamdden (GR)
Rheolwr Sgriwtini (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Douglas M. Fowle, Alwen Watkin, Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer)

HEFYD YN BRESENNOL: Mr Rhys Davies a Mrs Sharon Warnes (Aelodau o'r Pwyllgor Safonau) (presennol fel sylwedyddion)

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, ar yr amod bod enw'r Cynghorydd Geraint Bebb yn cael ei ychwanegu at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol.

3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH2 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 blwyddyn ariannol 2022/23, i'r Pwyllgor ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, sylw at nifer o straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad Chwarter 2, fel y manylir yn yr adroddiad. Dywedodd fod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan llesiant presennol y Cyngor a chadarnhaodd fod yr holl ddangosyddion yn gysylltiedig ag Amcan Llesiant 1, lle mae'r cyngor yn sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, yn wyrdd yn erbyn eu targedau perfformiad. Yn yr un modd, mae'r dangosyddion ar gyfer Amcan 2, lle mae'r Cyngor yn cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib, hefyd yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau, gyda dim ond un o'r 16 dangosydd yn tanberfformio. Fodd bynnag, er bod perfformiad yn erbyn y targedau yn wyrdd neu'n felyn yn gyffredinol, mae tueddiad ar i lawr yn dechrau esblygu yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformiad, yn enwedig mewn perthynas ag Amcan Llesiant 2. Cydnabyddir y bydd angen rhoi sylw penodol i'r dangosyddion hyn wrth i'r gaeaf agosáu, ynghyd â'r prosesau a'r ffrydiau gwaith cysylltiedig, yn neilltuoel oherwydd yr heriau costau byw a chynnydd mewn tlodi bwyd a thanwydd mewn cymunedau. Mae perfformiad y dangosyddion sy'n monitro Amcan Llesiant 3, lle mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wedi bod yn dda hefyd gyda 70% ohonynt yn uwch na'r targed.

Wrth adolygu'r data perfformiad ar gyfer Chwarter 2, cododd y Pwyllgor y materion a ganlyn gyda Swyddogion ac Aelodau Portffolio –

- Y duedd ar i lawr yn erbyn nifer o ddangosyddion perfformiad, yn arbennig mewn perthynas ag Amcan Llesiant 2. Wrth geisio eglurhad pellach am y meysydd lle disgwylir yr heriau mwyaf, a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael a/neu liniaru'r heriau hynny, nododd y Pwyllgor hefyd fod angen monitro'r meysydd y rhoddydd statws Melyn iddynt er mwyn sicrhau nad yw eu perfformiad yn dirywio.

Derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd gan Swyddogion fod perfformiad yn cael ei fonitro ar nifer o lefelau trwy'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, Penaethiaid Gwasanaeth a'r Gwasanaeth Trawsnewid, a hynny mewn sawl gwahanol ffordd. Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried yr hyn sy'n digwydd mewn cyd-destun ehangach fel rhan o'i waith cynllunio strategol. Er bod dangosyddion perfformiad a thargedau'n cael eu gosod ar gyfer y flwyddyn, gellir cyflwyno mesurau lliniaru megis adnoddau ychwanegol, er enghraifft, lle nodwyd yr angen a lle byddai'n cynorthwyo i wella perfformiad.

Gan fod nifer o'r meysydd sydd yn Felyn yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn anodd rhagweld sut fydd dangosyddion perfformiad y Gwasanaeth yn perfformio yn ystod cyfnod y gaeaf gan fod nifer yr atgyfeiriadau'n cynyddu ac maent yn fwy cymhleth eu natur, ond nid yw nifer y gweithwyr cymdeithasol a gyflogir i gwblhau'r asesiadau wedi cynyddu. Cynhelir cyfarfodydd mewnol rheolaidd i fonitro pwysau ac ymateb y gwasanaeth, yn ogystal â pherfformiad dangosyddion perfformiad sy'n ymwneud â gwasanaethau penodol, a defnyddir dull hyblyg i sicrhau fod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y misoedd nesaf yn heriol.

- Wrth gyfeirio at ddangosydd perfformiad 23 (yr amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn) a oedd yn Goch, er fod y Pwyllgor yn derbyn nad yw data crai bob amser yn cyfleu'r darlun llawn, yn arbennig mewn perthynas ag achosion cymhleth megis diogelu ac amddiffyn plant, gofynnodd a oes dull dadansoddi amgen a thecach ar gael.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y dangosydd hwn wedi'i gyflwyno yn ystod cyfnod pan oedd nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn uwch ac roedd y plant yn aros ar y gofrestr am amser sylweddol. Er bod y sefyllfa wedi gwella'n fawr erbyn hyn mae'r Gwasanaeth yn rhoi sylw i'r dangosydd hwn, o ran gwella perfformiad a sut mae perfformiad yn cael ei fesur o dan y dangosydd gyda'r bwriad o adlewyrchu'r sefyllfa a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar berfformiad yn y maes hwn yn well. Rhagwelir y bydd perfformiad yn erbyn y dangosydd yn debygol o aros yn Goch ar gyfer gweddill y flwyddyn; byddir yn ystyried ail asesu'r dangosydd ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau arfarniad mwy ystyrlon.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch beth sydd angen ei wneud i alinio'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol gyda'r Cynllun y Cyngor newydd, dywedodd y Prif Weithredwr fod y Cyngor wedi ymgynghori ar y Cynllun y Cyngor newydd ac, ôl mabwysiadu'r Cynllun, bydd Cerdyn Sgorio Corfforaethol newydd a chyfres o ddangosyddion yn cael eu datblygu i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Cynllun a'r nodau strategol; Bydd dangosydd perfformiad 23 yn rhan o'r broses honno a bydd yn cael ei asesu i weld a fydd modd ei addasu ar gyfer y cerdyn sgorio newydd.
- Trafodwyd y sefyllfa ariannol mewn perthynas â phwysau ar Ofal Cymdeithasol, lle rhagwelir gorwariant o £1.361m yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant erbyn diwedd y flwyddyn, ac mewn perthynas â'r effaith ehangach ar wasanaethau rheng flaen, a gofynnwyd cwestiynau am fesurau lliniaru. Hysbyswyd y Pwyllgor, er bod pob llinell yng nghyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael eu harchwilio i geisio canfod arbedion maint ac arbedion effeithlonrwydd, mae natur y Gwasanaeth, sy'n cael ei arwain gan y galw, yn ogystal â rhwymedigaethau statudol, yn golygu bod rheoli gwariant yn heriol. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid a gyda'r Bwrdd Iechyd i geisio rheoli'r galw a bydd hefyd yn parhau i archwilio dulliau amgen mwy darbodus o ddarparu gwasanaethau a fydd yn caniatáu i gyfrifoldebau statudol barhau i gael eu bodloni. Bydd y Panel Sgritini Cyllid yn craffu'n fwy manwl ar y mater hwn yn ei gyfarfod fis nesaf. O ran y cyd-destun ehangach, cyflwynir adroddiad ar sefyllfa'r Gyllideb Refeniw yn Chwarter 2 i gyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd ac, er y dengys yr adroddiad fod y Cyngor yn rhagweld tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, bydd nifer o feysydd o bryder yn cael eu hamlygu a allai effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol. Gallai ffactorau tymhorol effeithio ar berfformiad y gyllideb hefyd ac, yn draddodiadol, gwelir cynnydd yn y galw yn ystod y gaeaf. Disgwylir i flwyddyn ariannol 2023/24 fod hyd yn oed yn fwy heriol, gan olygu y bydd rhaid ystyried y gwasanaethau a ddarperir a'r ffordd y cânt eu darparu er mwyn lleihau costau.

Yn ystod trafodaethau pellach, hysbyswyd y Pwyllgor fod cynnydd o 20% yng nghyllideb y Gwasanaethau Oedolion yn ystod y 3 blynedd diwethaf, a gwelwyd cynnydd o 19% yng nghyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Dywedodd y Cyngorydd Alun Roberts, yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, wrth y Pwyllgor fod rhaid i gynghorau yng Nghymru wneud trefniadau darparu gofal er mwyn caniatáu i 1,000 o gleifion gael eu rhyddhau o'r ysbyty, yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn costio oddeutu £400k i Ynys Môn ac nid oes unrhyw arwydd fod Llywodraeth Cymru am ddarparu cyllid i gwrdd â'r gwariant. Oherwydd yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, awgrymodd aelod o'r Pwyllgor y dylid gofyn i Lywodraeth Cymru am adnoddau ychwanegol er mwyn cynorthwyo i gwrdd â chost y ddarpariaeth hon.

- A yw capasiti'n broblem oherwydd nad oes digon o swyddi neu oherwydd bod problemau wrth recriwtio gweithwyr i swyddi. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y broses recriwtio'n golygu fod swyddi angen eu llenwi yn barhaus mewn sefydliad tebyg i'r Cyngor, er bod llif swyddi o wasanaethau wedi lleihau gan fod llai o bobl yn newid eu swyddi yn ystod cyfnod y gaeaf, ac oherwydd yr amgylchiadau presennol. Oherwydd nad yw capasiti wedi cynyddu yn unol â'r galw, mae'n rhaid i wasanaethau ystyried gwneud pethau mewn ffyrdd gwahanol, er enghraifft trwy wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg.
- Cyfeiriwyd at y premiwm ar ail gartrefi ac, mewn achosion lle mae trethdalwyr lleol sydd yn adnewyddu eiddo gwag yn wynebu oedi wrth gwblhau'r gwaith, neu os yw'r gwaith yn mynd tu hwnt i'r cyfnod rhyddhad dewisol oherwydd effaith barhaus y pandemig a phrinder deunyddiau ac ati, gofynnwyd i'r Cyngor ddarparu cyfleuster, ar ffurf porth, pan fydd y biliau Treth Gyngor yn cael eu dosbarthu, er mwyn caniatáu i bobl esbonio eu sefyllfa a darparu tystiolaeth i'r Cyngor fel na chodir y premiwm tai gwag arnynt. Wedi i'r Gwasanaeth Cyllid fod yn dosbarthu grantiau cefnogi busnes, hysbyswyd y Pwyllgor ei fod bwriadu symud ymlaen yn awr ac ymestyn y defnydd a wneir o'r system CRM i ryngweithio gyda dinasyddion, gan gynnwys caniatáu iddynt gael mynediad ar-lein a darparu gwybodaeth, gan gynnwys ynghylch eithriadau'r Dreth Gyngor; gellir cynnwys ffurflen eithrio'r premiwm ar dai gwag fel rhan o'r broses honno.

Ar ôl ystyried adroddiad y cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 2 2022/23, y pwyntiau a godwyd a'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd ar lafar gan Swyddogion ac Aelodau Portffolio yn y cyfarfod, ac ar ôl cydnabod y straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad Chwarter 2, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a'i argymhell i'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'r mesur lliniaru mewn perthynas â monitro tueddiadau ar i lawr yn gysylltiedig â dangosyddion Amcan Llesiant 2.

4 CYFRIFIAD 2021 – DATA POBLOGAETH YNYS MÔN

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yn ymgorffori gwybodaeth am ddemograffeg poblogaeth y Cyngor ar ôl rhyddhau cyfrifiad 2021.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Cyngorydd Carwyn Jones, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth, ei fod yn seiliedig ar set gyntaf data'r cyfrifiad a ryddhawyd ar 28 Mehefin, 2022; bydd data'r cyfrifiad a ryddheir yn y dyfodol yn cael ei arfarnu a bydd yr adroddiad yn cael ei ddiweddarau yn ôl y gofyn. Mae'r data a gyflwynwyd yn amlygu'r newidiadau ym mhoblogaeth Ynys Môn rhwng 1981 a 2021 o ran dwysedd y boblogaeth, nifer yr aelwydydd, y boblogaeth fesul oedran a newidiadau a gwahaniaethau rhanbarthol. Mae'r data'n werthfawr er mwyn cynorthwyo i deilwra a chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Dengys y prif ystadegau ar gyfer Ynys Môn fod poblogaeth yr Ynys wedi gostwng ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011; mae cyfran y boblogaeth 65 oed neu hŷn wedi cynyddu, yn ogystal â maint y boblogaeth sydd yn 85 oed neu'n hŷn, a rhagwelir y bydd yn parhau i gynyddu. Er bod cyfran y boblogaeth o dan 16 oed yn sefydlog ar hyn o bryd, gwelwyd gostyngiad ers 1981; adlewyrchir gostyngiad mwy amlwg ym maint y boblogaeth oedran gweithio, gyda gostyngiad o 4.2% o gymharu â ffigwr cyfrifiad 2011.

Wrth ystyried data'r cyfrifiad a'i oblygiadau mewn perthynas â darparu gwasanaethau, trafododd y Pwyllgor y canlynol –

- I ba raddau y mae'r data'n dylanwadu ar strwythur a natur gwasanaethau'r Cyngor yn y tymor hir?

Hysbyswyd y Pwyllgor y bydd angen i'r Cyngor addasu ac ail-lunio ei gyllidebau er mwyn sicrhau fod cyllid ac adnoddau yn cael eu blaenoriaethu i gyd-fynd â'r meysydd hynny y bydd yr angen mwyaf amdanynt, yn unol â data'r cyfrifiad, e.e. poblogaeth hŷn sy'n cynyddu,

yn ogystal ag ehangu ei ddarpariaeth o ran tai, cludiant a chefnogaeth gymunedol. Yr her yw cyflawni'r newidiadau hynny fesul cam i sicrhau nad yw'r ddarpariaeth dydd i ddydd bresennol yn cael ei heffeithio gan benderfyniadau strategol tymor hir. Mae ymdrechion y Cyngor i dyfu economi Ynys Môn trwy ddenu buddsoddiad a chyflogaeth i'r Ynys yn hanfodol bwysig er mwyn gwrthsefyll y tueddiad tuag at boblogaeth sydd, ar y cyfan, yn heneiddio.

- Sut fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio'r data i baratoi ar gyfer newidiadau demograffig?

Hysbyswyd y Pwyllgor mai'r cynnydd yn y boblogaeth dros 85 oed sy'n creu'r her fwyaf o ran y math o ddarpariaeth y bydd rhaid ei ddarparu, yn ogystal â sut y caiff ei ddarparu ac ym mhle. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu ac ehangu ei ddarpariaeth gofal ychwanegol, yn ogystal â ddarparu tai addas ar gyfer pobl hŷn sydd yn gallu addasu wrth i'w hanghenion newid. Mae'r nifer gynyddol o bobl hŷn â dementia lle mae darpariaeth gymunedol yn risg iddynt, ynghyd â diffyg cymorth gan deulu oherwydd bod y boblogaeth yn gynyddol ar wasgar, yn ffactorau y mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymdrin â nhw ac mae'n golygu nad oes un ateb yn unig; mae angen cyfuniad o wahanol ddulliau i fynd i'r afael â'r sefyllfa ac mae'n golygu hefyd bod yn eglur ac yn onest ynghylch yr hyn y gall y Cyngor ei wneud a'r hyn na all ei wneud.

- Yr heriau wrth geisio ddarparu tai fforddiadwy addas ar gyfer pobl ifanc, sydd yn un o flaenoriaethau'r Cyngor, law yn llaw â chwrrd ag anghenion tai poblogaeth sydd yn heneiddio, ar ddau begwn y sbectrwm oedran.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod data'r cyfrifiad yn ddarparu gwybodaeth sylfaenol ddefnyddiol am boblogaeth yr Ynys a'r tueddiadau i'r dyfodol. Mae'n rhaid i'r Gwasanaeth Tai gynnal arolwg lleol o dai bob pum mlynedd sydd yn nodi'r anghenion tai am y cyfnod hwnnw a disgwylir i'r proffiliau oedran a ddarparwyd yn y cyfrifiad gael eu hadlewyrchu yn yr arolwg. Mae cynlluniau tai gofal ychwanegol, yn ogystal â chynllun i ddatblygu mwy o fyngalos, yn cael eu dylunio i gynorthwyo pobl hŷn i fyw'n annibynnol am gyfnod hirach, yn ogystal â rhyddhau cartrefi teuluol mwy o faint; mae'r rhaglen adeiladu tai cyngor yn lliniaru rhai o'r risgiau o ran cyflenwad tai ac mae gwahanol denantiaethau'n cael eu datblygu hefyd, gan gynnwys tai rhent cymdeithasol cyffredinol, tai rhent canolradd a chynllun rhannu ecwiti. Mae tair cymdeithas dai yn gweithredu ar yr Ynys hefyd ac maent yn ddarparu cymorth gwerthfawr er mwyn bodloni anghenion tai.

- I ba raddau y mae'r cynnydd yn y boblogaeth hŷn yn cael ei adlewyrchu yn y fformiwla gyllido ar gyfer Ynys Môn a'r angen i gyflwyno achos er mwyn sicrhau setliad teg ar gyfer yr Ynys?

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y fformiwla dyrannu cyllid yn ystyried proffil y boblogaeth, gan gynnwys niferoedd pobl hŷn, yn ogystal â ffactorau eraill megis disgyblion ysgol; pobl sy'n derbyn budd-daliadau a phlant sy'n derbyn cinio ysgol am ddim. Mewn ymateb i'r sylw am yr angen i ddefnyddio gwybodaeth y cyfrifiad am boblogaeth sy'n heneiddio'r Ynys i gyflwyno achos trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) am gyllid teg ar gyfer y Cyngor, ddarparwyd sicrwydd y byddai'n mater yn cael ei gyfeirio, er trafodaeth, at Fforwm Gwledig CLILC, sydd yn delio â materion sy'n ymwneud yn benodol â siroedd a chymunedau gwledig.

- Cynllunio lleoedd mewn ysgolion ac i ba raddau y mae angen adolygu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn sgil yr hyn a ddywed ystadegau'r cyfrifiad am y gostyngiad ym mhoblogaeth plant a phobl ifanc o dan 16 oed

Hysbyswyd y Pwyllgor fod cynlluniau moderneiddio ysgolion yn destun trafodaeth ac y bydd y data poblogaeth a'r tueddiadau a ddatgelwyd yn y data a ryddhawyd ar gyfer cyfrifiad 2021 yn cael eu hystyried fel mater o drefn. Mae'n rhaid i gynlluniau ar gyfer lleoedd ysgol adlewyrchu anghenion presennol, yn ogystal ag anghenion yn y dyfodol ac, oherwydd y cyd-destun ariannol, bydd rhaid iddynt hefyd ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.

Penderfynwyd derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad ar ddata'r cyfrifiad.

5 ADRODDIAD AWDURDOD LLEOL YNYS MÔN AR AROLWG CHWARAEON YSGOL – CHWARAEON CYMRU

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried, adroddiad y Pennaeth Datblygu Economaidd a Rheoleiddio yn ymgorffori canfyddiadau arolwg chwaraeon ysgolion Chwaraeon Cymru. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am ymateb Ynys Môn i'r arolwg o ran profiadau disgyblion ym maes chwaraeon ac mae'n cymharu data rhanbarthol a chenedlaethol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio ar gyfer Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth, gynodeb o'r adroddiad a oedd yn dangos fod ymatebion Ynys Môn yn uwch na'r cyfartaledd rhanbarthol a chenedlaethol o dan nifer o themâu, gan gynnwys amlder cyfranogiad mewn chwaraeon, aelodaeth o glybiau cymunedol neu chwaraeon a mwynhau Addysg Gorfforol a chwaraeon allgyrsiol.

Ystyriodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r arolwg a chroesawodd ymateb cadarnhaol disgyblion Ynys Môn i'r arolwg a'u brwdfrydedd i gyfranogi. Trafododd y Pwyllgor y materion isod gyda'r Aelod Portffolio a'r Rheolwr Hamdden Masnachol a nododd fod yr arolwg yn darparu sylfaen dda ar gyfer datblygu yn dilyn y pandemig a chadarnhaodd hefyd fod y pandemig wedi codi ymwybyddiaeth o werth gweithgareddau chwaraeon a chyfranogi er mwyn cadw'n heini ac yn iach. Darparwyd sicrwydd ynghylch gweithgareddau presennol a gweithgareddau sydd ar y gweill i annog disgyblion i gymryd rhan mewn chwaraeon a chynyddu eu cyfranogiad:

- Yr angen i adeiladu ar brofiadau disgyblion Ynys Môn ym maes chwaraeon er mwyn gwella'r ddarpariaeth chwaraeon ymhellach a chynyddu cyfranogiad.
- Bod rhwystrau'n bodoli o ran ymateb i anghenion a dyheadau disgyblion, yn arbennig gan y byddai 94% o ddisgyblion Ynys Môn yn hoffi gwneud mwy o chwaraeon, gan gynnwys gweithgareddau chwaraeon nad ydynt wedi rhoi cynnig arnynt o'r blaen.
- Yr angen i ganfod ffyrdd o gyrraedd y disgyblion hynny nad ydynt yn mwynhau cyfranogi mewn chwaraeon ac Addysg Gorfforol, yn ogystal â'r rhai hynny nad ydynt ond yn cyfranogi'n achlysurol.
- Canfod ffyrdd o wella hyder pobl ifanc i ymgysylltu mewn cyfleoedd chwaraeon newydd.
- Pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Cydnabuwyd mewnbyn yr Urdd ac awgrymwyd ymestyn y cydweithio i gynnwys Cymdeithas y Ffermwr Ifanc.

Penderfynwyd nodi cynnwys yr adroddiad.

6 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei gadarnhau, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn ymgorffori Blaen Raglen Waith y Pwyllgor a ddiweddarwyd ar gyfer 2022/23.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini y bydd yr amserlen wirioneddol ar gyfer eitemau'n gysylltiedig â Chyllideb 2023/24, a amserlennwyd dros dro ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 19 Ionawr 2023, yn cael ei chadarnhau a'i bod yn ddibynnol ar amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi setliad cychwynnol llywodraeth leol ar gyfer 2023/24.

Mewn ymateb i awgrym y dylid trefnu cyfarfod ychwanegol ym mis Ionawr oherwydd bod nifer o eitemau ar gyfer cyfarfod mis Ionawr, dywedodd y Prif Weithredwr y byddai dyddiad ychwanegol yn cael ei drefnu i ystyried eitemau cyllideb 2023/24.

Penderfynwyd –

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Flaen Raglen Waith ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma wrth weithredu'r Flaen Raglen Waith.**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones
Cadeirydd**

DRAFT